



Ein cyf/Our ref: qA1402335

Adrian Wilcock
Prif Gynllunydd – Cynllunio a Gweithredu Polisiâu
Cymdogaethau, Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Tŷ Blaen Torfaen
Panteg Way
New Inn
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 0LS

09/10/20

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen: Cytundeb Cyflawni – Adolygiad 1^{af}
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd)

Diolch am eich e-bost dyddiedig 2 Hydref yn gofyn am ganiatâd i ddiwygio eich Cytundeb Cyflawni, o ganlyniad i'r amgylchiadau eithriadol sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Mae paratoi Cynllun Datblygu Lleol yn ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae'r cynllun yn offeryn corfforaethol ac yn ddatganiad o flaenoriaethau'r Awdurdod Cynllunio Lleol mewn perthynas ag ymdrin â materion cenedlaethol a lleol – ac mae adfer o bandemig y coronafeirws yn un o'r blaenoriaethau hyn. Yn y llythyr gweinidogol dyddiedig 7 Gorffennaf 2020, tynnodd y Gweinidog sylw at bwysigrwydd y system gynllunio er mwyn llunio dyfodol gwell ar gyfer Cymru wrth inni ddechrau adfer. Mae'r system gynllunio ei hun yn seiliedig ar gynlluniau datblygu cyfredol – ac mae'r cynlluniau hyn yn ategu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i system a arweinir gan gynlluniau.

Mae eich cyngor yn gofyn am estyniad i'r amserlen bresennol y cytunwyd arni, sy'n golygu gohirio'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir am saith mis. Dylai'r Ymgynghoriad Adnewo ddechrau ym mis Gorffennaf 2021, a'r cynllun gael ei gyflwyno i'w archwilio ym mis Rhagfyr 2021 – a disgwylir i'r cynllun gael ei fabwysiadu yn hydref 2022 (Ffigur 2.1 a 2.2). Mae oedi am saith mis yn adlewyrchu'r cyfyngiadau cenedlaethol a gyflwynwyd i ymateb i bandemig y coronafeirws, ac yn benodol gallu pobl a busnesau i weithredu fel yr oeddent yn gallu gwneud cyn yr argyfwng. O ystyried hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cyfnod


llithro o dri mis ar gyfer y Cytundeb Cyflawni hwn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd yn yr amserlen cyn bod angen adolygiad ffurfiol.

Un prawf cadernid a ddefnyddir wrth archwilio'r cynllun fydd a yw'r cynllun yn dilyn y Cytundeb Cyflawni y cytunwyd arno, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau. Nodaf i'r Cytundeb Cyflawni gael ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 29 Medi 2020, ac o ganlyniad mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau wedi cael ei addasu i adlewyrchu cyngor diweddaraf y Llywodraeth ar y gofynion i gadw pellter cymdeithasol. Nodaf hefyd eich bod wedi nodi ei bod yn bosibl y bydd angen cynnwys ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid yn y camau sydd ar ôl yn y gwaith o baratoi'r cynllun. Ystyrir bod hyn yn ddull synhwyrol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cymaint ag y bo modd ac i addasu cyfyngiadau pan fyddant yn cael eu cyhoeddi yn unol â rheoliadau a chanllawiau'r Llywodraeth.

Ar ôl ystyried y mater o gyflwyno eich Cytundeb Cyflawni, gallaf **gadarnhau y cytunir** i'r amserlen ddiwygiedig a amlinellir yn Ffigur 2.1 a 2.2 fel y darperir ar ei chyfer gan adran 63(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd).

Dylid gwneud y fersiwn gyhoeddedig o'ch Cytundeb Cyflawni ar gael i'r cyhoedd yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Rheoliad 10.

Yn gywir,



Neil Hemington
Prif Gynllunydd

Copi at:

Robert Murray, Prif Gynllunydd
robert.murray@torfaen.gov.uk

Richard Lewis, Pennaeth Cynllunio a Datblygu
Richard.Lewis@torfaen.gov.uk